Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 15 Gorffennaf 2016

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD LLUN, 25 GORFFENNAF 2016** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CEISIADAU I'W HYSTYRIED-**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003 – CAID AM DRWYDDED EIDDO NEWYDD – PRINCE OF WALES, REGENT STREET, LLANGOLLEN** (Tudalennau 7 - 26)

Ystyried cais am Drwydded Eiddo newydd, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

**9.30 a.m.**

**4 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – BAR BOW, 27 WATER STREET, Y RHYL** (Tudalennau 27 - 166)

Ystyried cais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu Trwydded Eiddo a wnaed yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

**11.00 a.m.**

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Bill Cowie
Hugh Irving
Barry Mellor
Cefyn Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Is - Bwyllgor Trwyddedu

## Trefniadau gwrandawiad arolwg
## S.51 Deddf Trwyddedu 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Cadeirydd yr Is - Bwyllgor Trwyddedu yn agor y gwrandawiad arolwg. Croesawu pawb. Cyflwyno cydweithiwr ar yr Is-bwyllgorau a swyddogion. |
| 2. | Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno cais. |
| 3. | Cadeirydd yn gwahodd yr ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i gyflwyno'r cais. |
| 4. | Cadeirydd yn gwahodd (os oes yn bresennol) unrhyw Awdurdod cyfrifol arall i roi sylwadau. |
| 5. | Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd ac unrhyw Awdurdod cyfrifol sy'n bresennol. |
| 6. | Cadeirydd yn gwahodd eraill i roi sylwadau |
| 7. | Cadeirydd yn gwahodd dalwyr Trwyddedau adeilad i roi sylwadau. |
| 8. | Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r daliwr Trwyddedu adeilad ac eraill ac egluro unrhyw bwynt hefo'r ymgeisydd. |
| 9. | Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i roi datganiad terfynol. |
| 10. | Bydd Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn encilio i ystyried eu penderfyniad hefo clerc y gwrandawid ac ymgynghorydd cyfreithiol. |
| 11. | Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd i fynegi eu penderfyniad, a'u rhesymau. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 25 Gorffennaf 2016 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706451 licensing@denbighshire.gov.uk |
| **TESTUN:** | **Deddf Trwyddedu 2003 Cais am Drwydded Eiddo Newydd: Prince of Wales, Stryd y Rhaglaw, Llangollen LL20 8HN** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais am Drwydded Eiddo newydd, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â'r Prince of Wales, Stryd y Rhaglaw, Llangollen. O ganlyniad i'r ymgynghori angenrheidiol a'r Rhybudd Cyhoeddus gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r cais. Mae angen i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/ tystiolaeth berthnasol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais am Drwydded Eiddo newydd. Mae'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud â'r pedair Amcan Trwyddedu sef Atal Niwsans Cyhoeddus, Atal Trosedd ac Anrhefn, Diogelu Plant rhag Niwed a Diogelwch y Cyhoedd.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a (ii) Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau'n ystyried bod materion yn gysylltiedig ag un neu fwy o amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn

2.4 mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION

### 3.1 Penderfyniad yr Is-Bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-Bwyllgor, o ystyried y sylwadau a wneir, gymryd camau o'r fath (isod) maent yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu:

Gall yr Is-bwyllgor:

- Ganiatáu'r Cais fel y gwnaethpwyd cais amdano
- Cyflwyno unrhyw amodau, i'r graddau y mae'r Awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu
- Gwrthod y Cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar 1 Mehefin 2016, cafodd yr Awdurdod Trwyddedu gais am Drwydded Eiddo newydd. Cyflwynwyd y cais gan Mr Steven Evans mewn perthynas â'r Prince of Wales, Stryd y Rhaglaw, Llangollen.

4.2 Mae'r ymgeisydd wedi gofyn am ganiatâd i ddarparu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

| **GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY** | **DIWRNODAU PERTHNASOL** | **AMSER O** | **AMSER TAN** |
|---|---|---|---|
| Darparu cerddoriaeth fyw wedi'i Chwyddo (Dan do yn unig) | Dydd Llun – dydd Sul | 19:00 | 01:00 |
| Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio (dan do yn unig – peiriant recordiau) | Dydd Llun – dydd Sul | 19:00 | 01:00 |
| Darparu Perfformiad Dawns (Dan do yn unig) | Dydd Llun – dydd Sul | 19:00 | 01:00 |
| Darparu Alcohol (i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo) | Dydd Sul a Dydd Llun<br>Dydd Mawrth a Dydd Mercher | 11:00<br>11:00<br>11:00 | 00:00<br>23:00<br>01:00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dydd Iau – Dydd Sadwrn | | |
| *Oriau y bydd y safle ar agor i'r cyhoedd | Dydd Sul a Dydd Llun<br>Dydd Mawrth a Dydd Mercher<br>Dydd Iau – Dydd Sadwrn | 11:00<br>11:00<br>11:00 | 01:00<br>00:00<br>02:00 |

* Mae hefyd angen awdurdodiad ar yr eiddo i fod ar agor i'r cyhoedd o 11:00am tan 02:00am Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan.

4.3 Darparu Alcohol – Amseroedd Ansafonol: Yn ogystal â'r amseroedd yn 4.2 uchod, mae'r ymgeisydd hefyd wedi gofyn am awdurdodiad i ddarparu alcohol o 11:00 am tan 02:00 ar Ddydd San Steffan a Noswyl Nadolig.

4.4 Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion

Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno am drwydded eiddo, mae'n rhaid rhoi copi llawn i bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol, sef:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Tân
- Cynllunio
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Plant
- Awdurdod Iechyd
- Awdurdod Trwyddedu

4.5 Hysbysiad Cyhoeddus

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gynnwys hysbysiad mewn papur newydd lleol a rhoi hysbysiad ar yr adeilad neu wrth ei ymyl. Bydd hyn yn galluogi unigolion, corff neu fusnes i gyflwyno sylwadau perthnasol. Ond, bydd yn rhaid iddynt ddangos bod eu sylwadau yn ymwneud â hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

4.6 Sylwadau Perthnasol

Derbyniwyd sylwadau sydd, ym marn Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, yn berthnasol mewn perthynas â'r cais o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod.

4.6.1 Cafwyd sylwadau ysgrifenedig wedi ei arwyddo gan ddau aelod o'r cyhoedd sy'n byw ger y safle. Maent wedi tynnu sylw at nifer o feysydd sy'n peri pryder yn ymwneud â sŵn, ymddygiad afreolus a phroblemau

gyda gwydr a photeli wedi torri yn cael eu taflu yn eu gardd. Mae’r sylw hwn ynghlwm wrth Atodiad A i’r adroddiad.

4.6.2 Er bod yr holl bartïon yn cael cynnig y dewis o gyfryngu unwaith y cafwyd sylwadau, mae’r swyddogion yn ofalus i bwysleisio nad oes unrhyw rwymedigaeth i ymgysylltu. Ar yr achlysur hwn, fodd bynnag, mae’r ymgeisydd a'r trigolion wedi dangos eu parodrwydd i ymgysylltu ac, tra ar yr adeg llunio'r adroddiad hwn ni ddaethpwyd i unrhyw gytundebau, bydd unrhyw gynnydd pellach yn y cyswllt hwn yn cael eu hadrodd i'r Aelodau yn y Gwrandawiad.

4.6.3 Cafwyd sylwadau ysgrifenedig gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n wedi bod yn gweithio gyda'r ymgeisydd i gael datrysiad llwyddiannus i feysydd pryder yn ymwneud â darpariaethau diogelwch tân yn yr adeilad. Fodd bynnag, ar hyn o bryd maent yn ystyried bod materion eto i’w datrys; mae manylion llawn yn Atodiad B i'r adroddiad hwn. Er bod yr Ymgeisydd wedi nodi ei barodrwydd i gytuno â'r gofynion a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Tân, gall Aelodau ystyried bod angen rhoi amserlen o ran erbyn pryd y dylid datrys y materion hyn i foddhad yr Awdurdod Tân, pe baent yn cael Trwydded Eiddo.

4.6.4 I ddechrau fe gyflwynodd Heddlu Gogledd Cymru sylwadau ar y Cais. Fodd bynnag, ar ôl trafodaethau gyda’r ymgeisydd, mae nifer o amodau wedi’u cynllunio i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu ymhellach wedi cael eu llunio. Mae’r ymgeisydd wedi nodi ei barodrwydd i gytuno ar yr amodau hyn, ac ar y sail hon, bydd Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn, pe bai Aelodau o blaid caniatáu'r cais, eu bod yn ystyried ymgorffori’r amodau hyn o fewn Atodlen Weithredu’r eiddo. Gall yr Aelodau edrych ar yr amodau yn Atodiad C yr adroddiad hwn.

4.6.5 Mae Sean Awbery, Uwch Swyddog Technegol (Iechyd yr Amgylchedd) wedi codi pryderon yn ymwneud ag agosrwydd yr eiddo i eiddo preswyl. Mae nifer o amodau, felly, wedi eu cynnig i'w cynnwys o fewn y drwydded, pe bai’n cael ei gymeradwyo, er mwyn helpu i atal niwsans cyhoeddus. Gellir archwilio’r cynigion hyn, sydd wedi eu cytuno gan yr Ymgeisydd, yn Atodiad D i'r adroddiad hwn.

4.7 **<u>Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Ystyriaethau Polisi</u>**

Mae'r sylwadau perthnasol yn ymglymu'r amcanion trwyddedu.

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â’r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 2.1 i 2.5**

- Diogelwch y Cyhoedd **Adran 2.6 i 2.8**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 2.14 i 2.20**
- Diogelu Plant Rhag Niwed **Adran 2.21 i 2.30**

Datganiad Polisi Trwyddedu

4.8 Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 5**
- Diogelwch y Cyhoedd **Adran 6**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 7**
- Diogelu Plant Rhag Niwed **Adran 8**

4.9 Yn olaf, atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu -

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfraith gyffredin o gyfiawnder naturiol
- Darpariaethau o Ddeddf Hawliau Dynol 1998

5.0 **SYLWADAU'R SWYDDOGION**

Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau yn eu trafodaethau.

5.1 Mae atodlen weithredu gyflawn yn ofynnol ar gyfer pob Trwydded Eiddo newydd a'r rhai sy'n cael eu hamrywio a gall yr Aelodau archwilio'r atodlen a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn Atodiad E yr adroddiad hwn.

5.2 Er bod yr eiddo wedi bod yn gweithredu fel tafarn ers nifer o flynyddoedd, o ganlyniad i broblem gyfreithiol a gododd y tu allan i gylch gwaith yr Awdurdod Trwyddedu, ni ellid trosglwyddo'r Drwydded Eiddo oddi wrth y deiliad trwydded blaenorol yn y dull arferol. Felly bu'n rhaid i Mr Evans wneud cais am drwydded newydd. Tra bo ymgynghori ar y mater hwn yn mynd rhagddo, mae'r eiddo wedi bod yn gweithredu ar benwythnosau dan awdurdodiad Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro.

5.3 Mae'r ymgeisydd wedi nodi eu parodrwydd i weithio gyda'r Awdurdodau Cyfrifol a hyd yn hyn wedi cytuno i'r holl amodau arfaethedig; fodd bynnag, pe bai'r Aelodau'n caniatáu'r drwydded, efallai y byddant yn dymuno naill ai gosod amserlenni ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud neu, mewn rhai amgylchiadau, gosod amod yn nodi y dylid gohirio rhyddhau'r drwydded hyd nes bo'r Awdurdodau Cyfrifol perthnasol yn fodlon.

5.4 Atgoffir Aelodau, o fis Hydref 2012, pan ddaeth Deddf Cerddoriaeth Fyw i rym, mae'r gofyniad trwyddedu ar gyfer cerddoriaeth fyw rhwng 08:00 ac 23:00 wedi'i dynnu'n ôl mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Er gwybodaeth i'r Aelodau, mae Adran 15 y Canllaw Deddf Trwyddedu yn diffinio'r eithriadau hyn.

5.5 Yn olaf, atgoffir Aelodau, er bod y sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ac Iechyd yr Amgylchedd wedi cael cytundeb yr Ymgeisydd, dim ond Aelodau o Is-bwyllgor sy'n gallu atodi unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol, h.y. amodau ychwanegol, wrth Drwydded Eiddo.

6.0 **CRYNODEB**

6.1 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

6.2 Bydd yn rhaid i Aelodau benderfynu p'un ai yw cymeradwyo'r cais hwn, fel y caiff ei gyflwyno, yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol.

6.3 Yn sgil y sylwadau sydd wedi dod i law, bydd yr Aelodau yn dymuno ystyried y cais hwn i Amrywio Trwydded Eiddo yn ofalus.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 25 Gorffennaf 2016 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706433 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | Cais am Adolygu Trwydded Safle dan Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003: **Bar Bow, 27 Stryd y Dŵr, Y Rhyl** **Rhif y Drwydded: PL1254** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cais i adolygu trwydded eiddo yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

1.2 Cyflwynwyd y cais gan yr Arolygydd Alwyn Williams o Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â Bar Bow, 27 Stryd y Dŵr, y Rhyl LL18 1SR.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais ar gyfer adolygu trwydded eiddo presennol. Gall awdurdod cyfrifol neu barti â chysylltiad ofyn am adolygiad o drwydded ond rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu:

- atal trosedd ac anhrefn;
- diogelwch y cyhoedd;
- atal niwsans cyhoeddus, ac
- amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor a (ii) Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a (iii) y gyfraith ar y pryd.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu’r Amcanion Trwyddedu.

2.4 Atgoffir Aelodau’r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny’n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o’r Protocol, y Polisi neu’r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION

### 3.1 Penderfyniad yr Is-Bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor, o ystyried y sail ar gyfer yr Adolygiad, ynghyd ag unrhyw sylwadau ychwanegol a wnaed, gymryd y camau hynny (isod) y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Gall yr Is-bwyllgor:

- addasu amodau'r Drwydded;
- eithrio gweithgaredd y gellir eu trwyddedu o gwmpas y drwydded;
- cael gwared ar oruchwyliwr dynodedig y safle;
- atal y Drwydded am gyfnod nad yw'n fwy na 3 mis, neu
- ddirymu'r drwydded

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 yn datgan:

*“Mae'r gweithrediadau a nodir yn Neddf 2003 ar gyfer adolygu trwyddedau eiddo yn amddiffyniad allweddol i'r gymuned lle mae problemau sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu yn digwydd ar ôl caniatáu neu amrywio trwydded eiddo.*

*Ar unrhyw adeg, yn dilyn rhoi trwydded safle, gall awdurdod cyfrifol, neu barti â chysylltiad, ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded oherwydd mater sy'n codi yn y safle mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu"*

4.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno cais i adolygu trwydded eiddo sy’n cael ei dal gan Mr James Benbow mewn perthynas â Bar Bow, 27 Stryd y Dŵr, Y Rhyl.

4.3 Y Goruchwyliwr Safle Dynodedig cyfredol yn yr eiddo yw Miss Jessica

Lane.

4.4 Y sail ar gyfer adolygu sy'n ymwneud â phob un o'r pedwar amcan trwyddedu (atal trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd; atal niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed), fel y nodwyd ar y cais, yw:

4.4.1 *"o ganlyniad i achosion o drosedd ac anhrefn, a phryderon a godwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ynghylch rheolaeth yn yr eiddo trwyddedig, yn enwedig methiant i gydymffurfio gydag amodau'r drwydded eiddo.*

*Er gwaethaf ymdrechion gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd, gan ddefnyddio'r weithdrefn adolygu safleoedd trwyddedig, mae digwyddiadau difrifol wedi parhau*

*Mae'r eiddo wedi methu â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.*

*Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ddiffyg hyder yn y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig, Deiliad y Drwydded Eiddo a rheolwyr yr eiddo i reoli'r eiddo'n gyfrifol."*

4.5 Gellir archwilio manylion llawn y cais am adolygiad a'r digwyddiadau a'r ymyriadau a wnaed gan Heddlu Gogledd Cymru a CSDd yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn.

4.6 Cynhaliwyd nifer o ymweliadau ac ymyriadau yn yr eiddo trwyddedig dros nifer o fisoedd mewn ymateb i faterion a digwyddiadau yn yr eiddo. Cynhaliwyd y rhain gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddogion Trwyddedu CSDd. Rhoddwyd cyngor llafar ac ysgrifenedig i Ddeiliad y Drwydded, gan gynnwys llythyrau rhybuddio. Cynhaliwyd cyfarfod ar 25 Mehefin gyda Deiliad y Drwydded a'r DPS i drafod y pryderon parhaus a chytunwyd ar gynllun gweithredu Cam 1 manwl gan bob parti. Ni chydymffurfiwyd â hwn.

4.7 Cynhaliwyd cyfarfod ar gais cynrychiolydd cyfreithiol Deiliad y Drwydded Eiddo ar 6 Gorffennaf i ganiatáu cyfle i gyflwyno'r camau a gymerwyd i wella rheolaeth o'r eiddo trwyddedig.

4.8 Gellir archwilio copi llawn o'r Drwydded Eiddo bresennol gan gynnwys yr atodlen weithredu bresennol yn Atodiad C i'r Cais am Adolygiad.

4.9 Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn darparu lluniau teledu cylch caeedig i'r Aelodau eu gweld ar ddiwrnod y gwrandawiad.

4.10 <u>Deddf Trwyddedu 2003 - gwybodaeth/gofynion</u>

Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno i adolygu trwydded eiddo, mae'n rhaid rhoi copi llawn o'r cais (a dogfennau amgaeedig) i bob un o'r awdurdodau cyfrifol a deiliad y drwydded eiddo:

4.11 Hysbysiad Cyhoeddus

Pan fo cais am adolygiad wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu, mae'r Ddeddf yn mynnu bod rhybudd yn hysbysebu'r cais yn cael ei arddangos, yn yr eiddo dan sylw, ac ym mhrif swyddfeydd yr Awdurdod Trwyddedu am o leiaf 28 diwrnod yn olynol.

4.12 Sylwadau Perthnasol

Nid oes unrhyw sylwadau pellach wedi dod i law oddi wrth yr Awdurdodau Cyfrifol nac aelodau o'r cyhoedd mewn ymateb i'r cais am Adolygiad

4.13 Ystyriaethau a Materion sy'n berthnasol i'r Cais

Bydd Aelodau'n nodi, wrth ystyried y Cais, y dylent ystyried: -

- Cydbwyso buddiannau perchnogion, gweithwyr, cwsmeriaid a chymdogion yr eiddo.

Ystyriaethau Amcanion / Canllawiau / Polisi Trwyddedu

4.14 Mae'r sylwadau perthnasol yn ymrwymo'r amcanion trwyddedu.

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Atal trosedd ac anrhefn **Adran 2.1 i 2.7**
- Diogelwch y cyhoedd **Adran 2.8 i 2.17**
- Atal niwsans cyhoeddus **Adran 2.18 i 2.24**
- Diogelu plant rhag niwed **Adran 2.25 i 2.35**

Datganiad o Bolisi Trwyddedu - Proses Adolygu

4.15 Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal trosedd ac anrhefn **Adran 5**
- Diogelwch y cyhoedd **Adran 6**
- Atal niwsans cyhoeddus **Adran 7**
- Diogelu plant rhag niwed **Adran 8**

Atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu -

4.16

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/ lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Reolau cyfiawnder naturiol cyfraith gyffredin
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

5.0 **SYLWADAU'R SWYDDOGION**

5.1 Mae'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda'u hystyriaethau.

5.2 Dylai Aelodau nodi unwaith y bydd camau, fel y nodir yn Adran 3 o'r adroddiad hwn wedi eu cymryd a bod penderfyniad yn cael ei wneud, nid yw penderfyniad yr Awdurdod yn dod i rym ar unwaith. Ni fydd unrhyw benderfyniad yn dod i rym nes bod y cyfnod ar gyfer apelio wedi dod i ben neu, os cyflwynir apêl, pan fydd yr apêl wedi'i phenderfynu.

5.3 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau mai ar sail tystiolaeth/ rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

5.4 Atgoffir aelodau o'r Is-bwyllgor Trwyddedu o'r angen i ddarparu rhesymau dros eu penderfyniad.

5.5 Atgoffir aelodau y bydd yn rhaid atodi unrhyw amod y cytunir i fod yn berthnasol ac yn gymesur at y Drwydded Eiddo.

5.6 Dylai Aelodau fod yn ymwybodol wrth ystyried amodau diwygiedig i'w hatodi wrth y Drwydded Eiddo, bod angen diddymu unrhyw amod o natur debyg sydd eisoes yn bodoli.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag